Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 3ydd Medi 2024

Croeso a Gweddi.
Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd a gair o weddi gan Idris Thomas

Presennol
Y Cadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r cynghorwyr Elwyn Jones, Lowri James, Phyllis Ellis, Idris Thomas, Elfed Wyn Williams, Emma Chappell, Dawn Parry, Ynyr Parry, Ellen George a Berwyn Parry Jones

Ymddiheuriadau.
Rhian Evans-Hill, Gareth W Griffiths, Gareth Hughes a Sasha Williams

Datgan Buddiant
Dim

Cofnodion Cyfarfod y 5ed Gorffennaf 2024
Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Elfed Wyn Williams (1) Phyllis Ellis (2)

Materion o'r Cofnodion.
Cysgodfa Bws Rhiwlas - Nid ydym byth wedi derbyn cadarnhad am y lloches bws gan Gyngor Gwynedd. Er bod ganddynt 2 fawr yn sbâr, trafodwyd y mater i ni allu cael un o rheiny a'i wneud yn llai, er mwyn gosod un yn Rhiwlas cyn y Gaeaf.

Gohebiaeth a Materion eraill.
System Bleidleisio Cyngor Gwynedd - Daeth llythyr ynglŷn ag ymgynghoriad i newid y system bleidleisio leol. Yn dilyn trafodaeth, nid oedd gan y Cyngor sylwadau i'w gwneud,

Cynllunio.
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:
C24/0405/18/DT - Gorffwysfa, Brynrefail
Dymchwel estyniad to fflat presennol a chodi estyniad cefn deulawr, ynghyd a gwaith tirlunio yn y cefn a chodi wal gynnal a grisiau newydd.
C24/0599/18/DT - 14 Bryn Tirion, Penisa'r-waun
Estyniad Un llawr yng nghefn yr annedd
Capel Glasgoed
Mae yn edrych yn debyg fod cynnig wedi ei wneud ar y capel ei hun, ond mae yn ymddangos fod yr eiddo o dan ddau gyfeiriad gwahanol, er nad oes hyd y gwyddom gais wedi ei wneud i wahanu yn ddau dy gwahanol. Y clerc i gysylltu ag adran cynllunio.

Cadeirydd…….

Llwybrau

Mae'r gwaith ail wynebu a draenio wedi ei gwblhau ar lwybrau 30,35 a 93 ac mae'r gwaith o osod cylfat ar lwybr 65A yn y broses o gael ei gwblhau.

Llwybr 101

Derbyniwyd ymholiad ynglŷn â llwybr 101 sef llwybr sydd yn mynd heibio Gerlan, Clwt y Bont. Nid yw hwn wedi bod ar restr torri llwybrau'r Cyngor, ac felly heb gael ei dorri ers blynyddoedd maith. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cytuno i dalu contractwr i ymgymryd â'r gwaith dros y misoedd nesaf, ac yna bydd y Cyngor yn ychwanegu'r llwybr yma at eu llwybrau arferol yn flynyddol.

O Gwmpas y Bwrdd

Clybiau Ieuenctid

Mae clwb Bethel yn ail gychwyn, ac mae cais wedi dod i geisio clwb ieuenctid yn Rhiwlas. Mae'r Cyngor Cymuned wedi ymrwymo i dalu am y gwasanaeth eto eleni.

Toriadau Gordyfiant Lonydd bach

Mae sawl cwyn fod y toriadau ar y lonydd bach yn annigonol ac yn sobor o flêr. Mae tyfiant yn cael ei adael ar ben y cloddiau. Y clerc i gysylltu â'r adran yng Nghyngor Gwynedd.

Iddew ar Wal Bont Brynrefail

Yn yr un modd, mae Iddew yn tyfu ar wal y bont ac yn achosi i bobl beidio gweld o'r gysgodfa bws. Hefyd mae coeden sycamorwydden yn gordyfu dros y ffordd ac yn rhwystredig.

Cadarnhau Taliadau

Rhannwyd y ffurflen o daliadau ar gyfer y mis a Thrafodwyd y taliadau. Yn dilyn y drafodaeth, cadarnhawyd ac arwyddwyd y ffurflen.

Emma Chappell (1) Jane Pierce (2)

Cadeirydd……